

Ein Cymoedd  
Ein Dyfodol



Our Valleys  
Our Future



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Tasglu'r Cymoedd, 2016 – 2021: adroddiad terfynol



@TalkValleys

#OurValleys



# Cynnwys

Rhagair

**3**

Beth yw Tasglu'r Cymoedd?

**4**

Sut y dewisodd y Tasglu ei flaenoriaethau?

**5**

Beth oedd amcanion y Tasglu?

**6**

Sut yr oedd y Tasglu'n gweithredu?

**8**

Beth mae'r Tasglu wedi'i gyflawni?

**9**

Ffeithiau a ffigurau

**15**

Astudiaethau achos

**16**

Pa wersi a ddysgwyd?

**28**

Adborth annibynnol

**29**

Myfyrdodau

**31**

Y dyfodol

**33**

Wrth i Dasglu'r Cymoedd ddirwyn i ben, mae'n amserol ystyried yr hyn a gyflawnwyd a'r hyn y gallwn ei ddefnyddio i gefnogi gwaith gyda threfi a chymunedau'r Cymoedd yn y dyfodol.

Rydym wedi gweithio gyda'r asiantaeth annibynnol Ymchwil OB3 i lunio'r adroddiad hwn, sy'n anelu at adrodd hanes rhaglen Tasglu'r Cymoedd. Mae'n seiliedig ar gyfoeth o wybodaeth, gan gynnwys cyhoeddiadau gan weinidogion, adroddiadau cynnydd ac ymgyrchoedd cyfathrebu, yn ogystal ag ymchwil annibynnol a gomisiynwyd.

Defnyddiwyd y ddealltwriaeth hon o gyflawniadau Tasglu'r Cymoedd yn sail i'n hargymhellion ar gyfer y dyfodol.



# Rhagair



## **Wrth i Dasglu'r Cymoedd ddirwyn i ben, mae'n amserol myfyrio ar y cynnydd a wnaed dros y pum mlynedd diwethaf.**

Roedd amheuaeth ddealladwy pan sefydlwyd y Tasglu am y tro cyntaf yn 2016. Roedd pobl wedi gweld mentrau yn mynd a dod, a byddai hon yn rhaglen arall ag iddi fwriadau da ond a oedd yn sicr o fethu. Mae'r adroddiad hwn yn gofnod gonest o'r cynnydd a wnaed hyd yma, ac er bod llawer o bethau cadarnhaol wedi deillio o'r fenter, yn sicr mae gwersi y gallwn ddysgu ohonynt.

Fy menter gyntaf ar ddod yn gadeirydd Tasglu'r Cymoedd ddwy flynedd yn ôl oedd edrych ar draws y Cymoedd am yr arferion da presennol i'w rhannu.

Gan adeiladu ar y rhaglen helaeth o gyfarfodydd agored ac ymgynghori a gynhaliwyd gan fy nghyd-Aelod Alun Davies AS a Gweinidogion eraill, fe wnes i gyfarfod â holl arweinwyr yr awdurdodau lleol yn ardal y Tasglu i ofyn iddynt nodi mentrau llwyddiannus a oedd wedi deillio o'u hardaloedd, y gallem eu rhannu mewn awdurdodau cyfagos.

Fe wnaethom benderfynu canolbwyntio ar feysydd lle roeddem yn gwybod y gallem wneud gwahaniaeth go iawn, ac ar fentrau y gellid eu cyflawni'n gyflym. Mae rhagor o wybodaeth am y cynnydd o ran y camau gweithredu hynny drwy gydol yr adroddiad hwn, ac rwy'n ymfalchïo'n fawr yn yr effaith y mae'r camau gweithredu hynny wedi'i chael mewn cymunedau o fewn cyfnod cymharol fyr.

Wrth inni agosáu at ddiwedd tymor y Senedd hon, rwyf wedi bod yn ymwybodol o'r angen i allbynnau'r Tasglu fynd ymhell y tu hwnt i dymor y llywodraeth hon. Rydym wedi gweithio'n galed i ymgorffori ein gwaith yn y cynlluniau tymor hir ar gyfer Llywodraeth Cymru a thrwy weithio mewn partneriaeth.

Mae'r Tasglu wedi trafod yr hyn y credwn a ddylai fod yn flaenoriaethau strategol i unrhyw raglen gyflawni yn y dyfodol ganolbwyntio arnynt, ac wedi eu hamlinellu'n glir i lywodraeth newydd eu hystyried. Ni ellir gwadu bod angen gwneud mwy, a bod yr heriau y mae'r Cymoedd yn eu hwynebu wedi cael eu gwaethygu gan y pandemig COVID-19.

Ni all y gwaith hwn ddod i ben yma. Mae'r atebion o fewn y cymoedd eu hunain, ac yn ei gwneud yn ofynnol i bob un ohonom gydweithio'n agos gydag ymroddiad parhaus i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i bawb sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymoedd De Cymru. Rwy'n edrych ymlaen at weld beth ddaw nesaf.

**Lee Waters AS**  
**Dirprwy Weinidog yr Economi**  
**a Thrafnidiaeth**

# Beth yw Tasglu'r Cymoedd?

**Corff trawslywodraethol yw'r Tasglu a sefydlwyd i gydlyn polisi ac ymyriadau yng Nghymoedd De Cymru, gan gynyddu effaith adnoddau presennol. Treialodd ddulliau newydd o fynd i'r afael â set unigryw o heriau dwfn – llawer ohonynt yn gysylltiedig â dirywiad diwydiant trwm a chau pyllau glo ar hyd a lled yr ardal.**

Fe'i sefydlwyd yn 2016 gan Alun Davies AS, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd, mewn ymateb i bryderon dybryd a fynegwyd yn y cymunedau ynghylch ansicrwydd a diffyg rhagolygon. Fel cadeirydd cyntaf y Tasglu, roedd Alun Davies yn credu'n gryf y dylai'r rhaglen gael ei llywio gan farn cymunedau'r Cymoedd, ac aeth ati i gynnal sgwrs ystyrlon â phobl leol.

Yn 2018, cymerodd y Dirprwy Weinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Lee Waters AS, yr awenau fel cadeirydd y Tasglu. Ceisiodd adeiladu ar y momentwm cychwynnol hwn drwy nodi mentrau lleol llwyddiannus y gellid eu hefelychu neu eu hehangu ar draws y Cymoedd.

Nod cyffredinol y Tasglu fu gwella ffyniant y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Cymoedd. Ei fwriad oedd:

- mabwysiadu dull hirdymor o fynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu'r Cymoedd. Nid oedd wedi'i fwriadu i fod yn ateb cyflym nac yn rhaglen gyflawni tymor byr.
- rhoi llais i'r Cymoedd ac eirioli ar eu rhan. Y bwriad oedd cynyddu'r ffocws ar y Cymoedd a rhoi statws iddynt fel endid daearyddol.
- cael ei lywio a'i ysgogi gan anghenion cymunedau lleol.

Ochr yn ochr ag aelodau etholedig y Senedd, mae'r Tasglu wedi cynnwys arbenigwyr annibynnol, cynrychiolwyr o sectorau allweddol ac unigolion eraill sydd â chysylltiad â'r Cymoedd.

Pan gafodd ei sefydlu gyntaf, roedd ardal Tasglu'r Cymoedd yn cwmpasu naw awdurdod lleol: Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Thorfaen. Ehangwyd ei ffin yn 2019 i gynnwys Cwm Gwendraeth a Chwm Aman yn Sir Gaerfyrddin, gan gydnabod eu bod hwythau hefyd yn rhan o feysydd glofaol de Cymru.

“

**Gan ddefnyddio cryfderau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector a gallu Llywodraeth Cymru i sbarduno newid, bydd y Tasglu'n gweithio yn ystod tymor y Cynulliad hwn i arwain ar waith adfywio a thwrf cynaliadwy yn y Cymoedd.**

Alun Davies AS, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes (Medi 2016)

## Sut y dewisodd y Tasglu ei flaenoriaethau?

**Nod y Tasglu oedd nodi'r blaenoriaethau a'r anghenion cymunedol a fyddai'n llywio ei raglen waith. Dan arweiniad Alun Davies AS, treuliodd ei flwyddyn gyntaf yn gwrando ar bobl a oedd yn byw ac yn gweithio yn y Cymoedd. Canfu'r ymchwiler a'r gwaith ymgysylltu hwn – a gefnogwyd gyda'r hashnod cyfryngau cymdeithasol #TrafodyCymoedd – fod aelodau'r gymuned eisiau i'r Tasglu fynd i'r afael â thri mater:**

- creu mwy o gyfleoedd gwaith o ansawdd yn lleol, a mynd i'r afael â gwaith dros dro a chontractau dim oriau.
- gwella gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig trafnidiaeth a thai fforddiadwy.
- cynnal a chadw'r amgylchedd naturiol lleol a threftadaeth ddiwylliannol a gwneud mwy o ddefnydd ohonynt.

Mewn ymateb i'r canfyddiadau hyn, cyhoeddodd y Tasglu ei gynllun gweithredu cyntaf, Ein Cymoedd, Ein Dyfodol, ym mis Gorffennaf 2017. Roedd hwn yn nodi tair blaenoriaeth gyffredinol – 'Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni', 'Gwell gwasanaethau cyhoeddus' a 'Fy nghymuned leol' – a chyflwynodd weledigaeth ar gyfer y Cymoedd erbyn 2021, gan gynnwys:

- cau'r bwlch cyflogaeth rhwng y Cymoedd a gweddill Cymru drwy helpu 7,000 yn rhagor o bobl i gael gwaith.
- rhoi mynediad i bobl leol at y sgiliau cywir i gael gwaith.
- cefnogi busnesau i dyfu a ffynnu.
- sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb i anghenion pobl.
- cefnogi pobl i gael bywydau iachach.
- darparu trafnidiaeth gyhoeddus gydgysylltiedig, fforddiadwy i helpu

pobl i fynd i'r gwaith neu'r ysgol, neu i gael mynediad at gyfleusterau hyfforddiant a hamdden.

- gwella canlyniadau addysg i blant a chau'r bwlch cyrhaeddiad.
- sefydlu Parc Tirwedd y Cymoedd, a gafodd ei ailenwi'n ddiweddarach yn Barc Rhanbarthol y Cymoedd, i wneud y defnydd gorau o'r amgylchedd naturiol a threftadaeth.
- creu canol trefi deniadol sy'n llawn bywyd.
- gwneud y Cymoedd yn gyrchfan gydnabyddedig i dwristiaid.

“

**Nid cynllun ar gyfer y Cymoedd yn unig yw Ein Cymoedd, Ein Dyfodol. Mae'n gynllun o'r Cymoedd. Nid achos arall o lywodraeth yn penderfynu beth sydd orau i'r Cymoedd yw'r tasglu hwn. Os ydym i lwyddo, rhaid i gymunedau a phobl leol fod wrth galon ein gwaith.**

Alun Davies AS, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes (Gorffennaf 2017)

## Beth oedd amcanion y Tasglu?

**Amlinellwyd rhaglenni gwaith i gyflawni tair blaenoriaeth y Tasglu mewn cynlluniau cyflawni blynyddol a gyhoeddwyd ar gyfer 2017 a 2018. Roedd ei gamau gweithredu cychwynnol yn canolbwyntio ar ddylanwadu ar bolisi a darpariaeth brif ffrwd a llunio'r polisiâu a'r darpariaethau hynny er mwyn mynd i'r afael yn well ag anghenion cymunedau'r Cymoedd. Roedd y pwyslais ar ddatblygu cysylltiadau effeithiol rhwng gwahanol feysydd polisi, gan wneud gwell defnydd o'r adnoddau a'r cronfeydd presennol.**

Wrth i fomentwm y rhaglen gyflymu, mabwysiadodd y Tasglu gylch gwaith ehangach drwy gyllido ymyriadau penodol ar draws y Cymoedd.

Er mwyn dod o hyd i'r mentrau hyn, fel y Cynllun Cartrefi Gwag dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, bu ymgysylltiad helaeth rhwng Lee Waters AS, Aelodau eraill y Senedd ac arweinwyr yr awdurdodau lleol.

Y nod oedd adnabod ymyriadau llwyddiannus a oedd eisoes ar waith yn y Cymoedd, ac y gellid eu hefelychu neu eu hehangu er budd ardal ehangach y Cymoedd.

Canolbwyntiodd y Tasglu ar brosiectau a gweithgareddau lle y gallai wneud y gwahaniaeth mwyaf yn ystod ei oes.

O'r herwydd, daeth rhai cynlluniau cychwynnol, fel hybiau cymunedol, i ben yn gynnar.

Atgyfnerthwyd y newid yn y ffocws drwy gyflwyno saith thema blaenoriaeth, a oedd yn sail i dair blaenoriaeth gyffredinol y Tasglu.

|  <b>Blaenoriaeth 1</b><br>Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni |  <b>Blaenoriaeth 2</b><br>Gwell gwasanaethau cyhoeddus |  <b>Blaenoriaeth 3</b><br>Fy nghymuned leol |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|  Hybiau Strategol                                                      |  Tai                                                   |  Parc Rhanbarthol y Cymoedd                 |
|  Economi Sylfaenol                                                     |  Y Gronfa Arloesi                                      |                                                                                                                                  |
|  Entrepreneuriaeth a Chymorth Busnes                                   |  Trafnidiaeth                                          |                                                                                                                                  |



## Beth oedd amcanion y Tasglu?

“

Er y bydd y Tasglu yn parhau i weithio i gyflawni'r holl gamau a gynhwysir yn Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynllun Cyflawni, bydd ein hymdrechion yn canolbwyntio'n benodol ar saith maes blaenoriaeth.

Rwy'n awyddus bod yr atebion yr ydym yn eu cefnogi i adfywio cymunedau'r Cymoedd yn seiliedig ar arferion da o'n cymunedau.

Lee Waters AS, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth (Gorffennaf 2019)



## Sut yr oedd y Tasglu'n gweithredu?

**Roedd trefniadau llywodraethu a chyflawni'r Tasglu yn cynnwys tasglu gweinidogol i oruchwylio'r rhaglen, saith gweithgor i gyd-fynd â phob un o'r themâu blaenoriaeth, bwrdd rhaglen â chyfrifoldeb am gyflawni, a thîm bach o Lywodraeth Cymru i lywio a monitro ei weithrediad.**

Gan adeiladu ar ei waith allgymorth cychwynnol, parhaodd y Tasglu i ymgysylltu â chymunedau'r Cymoedd i lunio ei flaenoriaethau, a chyd sefydliadau rhanddeiliaid i lywio a chyd-ddatblygu polisi. O'r cychwyn cyntaf, gweithiodd mewn partneriaeth â rhanddeiliaid o bob rhan o'r rhanbarth i nodi'r meysydd lle y gallai ymyrraeth gan y Tasglu gael yr effaith fwyaf.

Gwrandawodd y Tasglu ar farn rhanddeiliaid ac ymateb i hynny, gan ddefnyddio'r dystiolaeth i ddylanwadu ar bolisiâu presennol Llywodraeth Cymru a pholisiâu a oedd yn dod i'r amlwg. Er y gall gwaith partneriaeth dilyn fod yn dreth ar amser ac y gall gymryd mwy o amser i ddod i gonsensws, ystyriwyd bod hyn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni dull gweithredu gwirioneddol ranbarthol.

Fe wnaeth y Tasglu a'i bartneriaid allweddol gynnal nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ar y cyd lle roedd niferoedd da yn bresennol. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar gynigion polisi penodol, megis hybiau strategol, Parc Rhanbarthol y Cymoedd, cymorthfeydd busnes a thrafnidiaeth.

Datblygwyd ymgyrch cyfryngau cymdeithasol a brandio lwyddiannus a oedd yn canolbwyntio ar ymgysylltu â'r gymuned a balchder yn y Cymoedd fel lle i fyw a gweithio.



Sefydlwyd sianeli cyfryngau cymdeithasol newydd a gwefan bwrpasol, gan ddatblygu 'Y Cymoedd – Calon ac Enaid Cymru' fel brand ac ymgysylltu â'r holl ysgolion cynradd drwy'r prosiect Gyda'n Ffydd, Canu'n Gryf.

Cyhoeddwyd adroddiad cyfathrebu hefyd ynghyd â ffilm fer ar hynt y Tasglu.

Cafodd pandemig y coronafeirws COVID-19 effaith sylweddol ar weithgareddau ymgysylltu a gynlluniwyd yn ystod 2020. Bu'n rhaid gohirio digwyddiadau rhwydweithio wyneb yn wyneb a chymorthfeydd busnes oherwydd y cyfyngiadau a orfodwyd gan y llywodraeth.



# Beth mae'r Tasglu wedi'i gyflawni?

## Hybiau Strategol

Dynododd y Tasglu saith ardal ar gyfer yr hybiau strategol: Glynebwy, Merthyr Tudful, Pontypridd/Ffynnon Taf, Cwmbrân, Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd, a Chaerffili/Ystrad Mynach. Bwriad y rhain oedd bod yn ganolbwynt ar gyfer cynyddu a lledaenu prosiectau a mentrau o ansawdd da a ddyluniwyd yn y Cymoedd.

Fe wnaeth yr ardaloedd hyn elwa o fuddsoddiad cyhoeddus ag iddo ffocws penodol – ac fe wnaeth hynny, yn ei dro, ddenu buddsoddiad cyfalaf o'r sector preifat, gan greu swyddi a chyfleoedd i bobl sy'n byw yng Nghymoedd De Cymru a'r cyffiniau. Ym mis Hydref 2018, rhoddwyd £25m i'r Tasglu dros ddwy flwyddyn ariannol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r hybiau strategol.

Gweithiodd y Tasglu i sicrhau'r manteision mwyaf posibl i'r Cymoedd o brosiectau seilwaith, fel y rhai'n ymwneud â thai, trafnidiaeth, Metro De Cymru a gwelliannau i ffordd Blaenau'r Cymoedd, yr A465.

Datblygodd awdurdodau lleol ym mhob un o ardaloedd yr hybiau strategol ystod o brosiectau blaenoriaeth, pob un â gwahanol becynnau cyllido, modelau cyflawni ac amserlenni.

Darparwyd cyllid refeniw o £600,000 drwy'r Tasglu i dri awdurdod lleol (Caerffili, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf) er mwyn datblygu uwchgynlluniau strategol ar gyfer gweithgaredd adfywio yn y dyfodol. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu sut y byddai buddsoddiadau newydd mewn gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd yn helpu i ddarparu atebion trafnidiaeth integredig, gan gyfrannu at adfywio canol trefi a'u cymunedau ehangach. Cyfrannodd y Tasglu hefyd £650,000 tuag at ailddatblygu Neuadd y Dref ym Maesteg, gan helpu i'w thrawsnewid yn gyfleuster aml-ddefnydd ar gyfer dysgu a hyfforddi yn ogystal â diwylliant a'r celfyddydau.

Roedd hwn yn rhan o becyn cyllido mwy, gan gynnwys cyllid Ewropeaidd, Cyllid o Gronfa Treftadaeth y Loteri a chyfraniadau gan yr awdurdod lleol ac Ymddiriedolaeth Hamdden Awen, a oedd yn rheoli'r eiddo.

## Cefnogi 7,000 o swyddi

Y weledigaeth yn y pen draw oedd cau'r bwlch cyflogaeth rhwng y Cymoedd a gweddill Cymru erbyn 2021, drwy helpu 7,000 o bobl ychwanegol i gael gwaith a chreu miloedd o swyddi newydd, teg, diogel a chynaliadwy. Roedd y Tasglu hefyd eisiau sicrhau y byddai gan bobl sy'n byw yn y Cymoedd fynediad at y sgiliau cywir i gael gwaith, ac y byddai busnesau'n cael cefnogaeth lawn i dyfu a ffynnu yng Nghymoedd de Cymru.

Mae'r gweithgaredd a wnaed drwy'r rhaglenni cyflogadwyedd hyn wedi arwain at gefnogi mwy na 7,000 o bobl yn y Cymoedd i gael gwaith.

Cyflwynwyd cynlluniau peilot Swyddi Gwell yn Nes at Adref hefyd, gan greu 132 o swyddi newydd sy'n dal i fodoli heddiw.

Mae mentrau'r Cymoedd, gyda chefnogaeth Busnes Cymru, wedi helpu i greu mwy na 3,000 o swyddi yn yr ardal ers mis Ebrill 2018. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi helpu i greu mwy na 700 o fentrau newydd yn ystod yr un cyfnod.

Er bod Busnes Cymru yn gweithredu ar lefel genedlaethol, mae wedi bod yn greiddiol o ran galluogi rhaglen ehangach y Tasglu i gael ei chyflawni.

## Beth mae'r Tasglu wedi'i gyflawni?

Roedd hyn yn unol â'r ethos na ddylai Tasglu'r Cymoedd ddyblygu'r hyn a oedd eisoes ar gael, ond yn hytrach y dylai gymhwyso polisïau a rhaglenni mewn ffordd effeithiol, drawslywodraethol er mwyn cael gwell canlyniadau.

Mae gwaith i'w wneud o hyd. Rhwng 2017 a'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2020, mae'r gyfradd gyflogaeth yn ardal Tasglu'r Cymoedd wedi aros ar 71%\*.

Ledled Cymru, mae'r gyfradd gyflogaeth wedi cynyddu i 73%, o 72% yn 2017.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddeall pam mae'r bwlch yn ehangu, ac effaith COVID-19 ar gyfraddau cyflogaeth yn y Cymoedd o'i gymharu â gweddill Cymru – gan ei bod yn hysbys mai cymunedau'r Cymoedd sydd wedi cael eu taro waethaf gan y pandemig.

\* Ffynhonnell: Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth

## Yr Economi Sylfaenol

Roedd y Tasglu'n cydnabod pwysigrwydd cefnogi'r economi sylfaenol – sefydliadau a busnesau sy'n darparu gwasanaethau a chynhyrchion sylfaenol yn eu cymunedau. Mae'r rhain yn gweithredu mewn sectorau gan gynnwys gwasanaethau iechyd a gofal, bwyd, tai, ynni, adeiladu, twristiaeth a manwerthu ar y stryd fawr.

Fe wnaeth y Tasglu gyfraniad o £2.4m i Gronfa Her yr Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru. Menter sy'n cwrdd Cymru gyfan yw hon sydd wedi cefnogi cyfres o brosiectau arbrofol, gan dreialu dulliau newydd o gryfhau'r economi sylfaenol. Dyrannwyd cyllid i 27 o brosiectau yn y Cymoedd drwy'r gronfa. Sefydlwyd Cymuned Ymarfer hefyd i ddod â phrosiectau tebyg ynghyd, gan rannu profiadau a helpu i lywio polisi yn y dyfodol.

Ymhlith y sefydliadau a gefnogwyd drwy'r Gronfa Her roedd:

- Simply Do Ideas, a ddefnyddiodd ei grant i brofi ei platfform digidol sy'n cefnogi arloesedd a ysgogir gan her – gan ganiatáu i fusnesau bach a chanolig ymateb yn gyflym ac yn ddiogel i friffiau cleientiaid mewn amser real. Gan weithio gyda Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, adroddodd y prosiect fod y GIG wedi caffael mwy na £6m o gynhyrchion cyfarpar diogelu personol (PPE) gan gyflenwyr sy'n defnyddio'r platfform.

Arweiniodd hyn at werth ychwanegol gros (GVA) o £34m i economi Cymru, gan roi cyfle i Gymru ddod yn arweinydd byd ym maes arloesi a ysgogir gan her.

- Cymdeithas Tai Unedig Cymru, a gafodd grant i weithio gyda chymdeithasau tai partner ym Mlaenau Gwent. Fe wnaeth hyn ei galluogi i fapio ei chynlluniau gwaith a'i chadwyni cyflenwi i archwilio sut y gallai pŵer ei wariant cyfunol fod o fudd gwell i gyflenwyr a chymunedau lleol. Caniataodd y prosiect i'r gymdeithas ymgysylltu â busnesau er mwyn mynd i'r afael ag anghenion yn y dyfodol, a gweithio i gael gwared ar broblemau 'ffyniant a methiant' nad oeddent wedi cael eu nodi o'r blaen. Yn fwy arwyddocaol, mae'r arferion gwaith cydweithredol a alluogwyd gan y grant bellach yn dylanwadu ar bolisi ehangach, diolch i'r ddealltwriaeth y gall cyfuno cyllidebau a rhaglenni gwaith warantu sianel o waith cyson i gyflenwyr lleol bach.

Mae'r Tasglu hefyd wedi cefnogi'r economi sylfaenol drwy weithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Ganolfan Strategaethau Economaidd Lleol i archwilio sut y gall cyrff sector cyhoeddus addasu eu gwariant yn well er budd economïau lleol. Mae pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y Cymoedd wedi ymrwymo i'r gwaith hwn.

# Beth mae'r Tasglu wedi'i gyflawni?

## Entrepreneuriaeth a chymorth busnes

Ffocws y flaenoriaeth hon oedd gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Busnes Cymru, i gefnogi entrepreneuriaid a'r gymuned fusnes ar draws y Cymoedd.

Roedd y rhai a oedd yn ymwneud â Thasglu'r Cymoedd yn ystyried y gweithgaredd hwn yn un o enghreifftiau mwyaf llwyddiannus y rhaglen o waith trawslywodraethol.

Roedd yn cynnwys addasu'r ddarpariaeth bresennol er mwyn diwallu anghenion entrepreneuriaid a busnesau yn fwy effeithiol – megis drwy ddarparu sesiwn Pitch It ar gyfer busnesau newydd a chymorthfeydd galw heibio i fusnesau lleol.

Ariannwyd a chyflawnwyd nifer fach o brosiectau peilot hefyd, megis y Rhwydwaith Entrepreneuriaid i Gymheiriaid a chymorth i fusnesau gofal.

Bwriad y rhain oedd targedu cynulleidfaoedd newydd a diwallu anghenion busnesau yn y Cymoedd yn well.

Rhwng mis Ebrill 2018 a mis Hydref 2020, fe wnaeth 4,082 o entrepreneuriaid a busnesau yn y Cymoedd ymgysylltu â Busnes Cymru.

### Adroddwyd bod:

- 722 o fentrau newydd wedi'u sefydlu
- 3,310 o swyddi ychwanegol wedi'u creu
- £83.4m o allforion mewn masnach dramor.

Canfu gwerthusiad annibynnol o Busnes Cymru yn 2019 fod swyddi newydd a grëwyd gan fusnesau a gefnogir yn yr ardal wedi creu gwerth ychwanegol gros (GVA) o bron i £60m i economi'r Cymoedd ers cyflwyno'r gwasanaeth presennol yn 2015.





# Beth mae'r Tasglu wedi'i gyflawni?

## Tai

Prif gyflawniad y Tasglu o dan y flaenoriaeth hon oedd cyflwyno Cynllun Cartrefi Gwag Rhondda Cynon Taf ar draws y Cymoedd, gan ddefnyddio tai gwag unwaith eto. Yn ystod rhaglen Ymgysylltu Trafod y Cymoedd, yr adborth gan un grŵp ffocws oedd: 'Mae yna lwythi o adeiladau gwag nad ydyn nhw'n cael eu hadnewyddu, ond mae tai newydd yn cael eu hadeiladu drwy'r amser.'

Mae hyn yn enghraifft dda o sut y nododd y Tasglu brosiect llwyddiannus a oedd yn mynd i'r afael ag anghenion cymunedau lleol, a sut y bu iddo allu ei efelychu ar draws rhanbarth y Cymoedd. Daeth y cynllun â phartneriaid allweddol ynghyd o awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a Banc Datblygu Cymru i sefydlu a gweithredu ei gyflwyno.

Cyfrannodd y Tasglu £10m at y cynllun, gan alluogi pob ymgeisydd i wneud cais am grant o hyd at £20,000 ac erbyn mis Medi 2020 roedd mwy na 600 o geisiadau wedi dod i law. O dan ail gam y grant, roedd ymgeiswyr yn gallu gwneud cais am £5,000 ychwanegol i gefnogi mesurau effeithlonrwydd ynni a'r agenda datgarboneiddio.

Mae'r Cynllun Cartrefi Gwag wedi arwain at fanteision uniongyrchol i'r rhai a gafodd arian grant i brynu ac adnewyddu cartrefi gwag, yn ogystal ag i gyflenwyr lleol a gafodd gyfle i gael 2,000 o oriau o waith fesul grant a ddyfarnwyd.

Mae cymunedau lleol wedi elwa o gael llai o eiddo gwag, gan wella ymddangosiad yr amgylchedd adeiledig.

Arweiniodd llwyddiant y cynllun at ddyraniad ychwanegol o £2 filiwn o gyllid.

Dywed un ymgeisydd llwyddiannus am grant yn Sir Gaerfyrddin:

“

**Cefais £10,000 o'r Cynllun Cartrefi Gwag, ac roedd hyn yn help mawr – roeddwn i'n gallu cael cegin newydd, a phlastro y tu allan i'r tŷ, gan atal lleithder. Heb y grant, fyddwn i byth wedi gallu gwneud hyn.**



# Beth mae'r Tasglu wedi'i gyflawni?

## Y Gronfa Arloesi

Prif gyflawniad y Gronfa Arloesi oedd sefydlu cynllun alumni newydd. Gan ddechrau gyda 10 ysgol uwchradd ar draws y Cymoedd, bydd y fenter hon yn datblygu rhwydwaith o wirfoddolwyr alumni i wasanaethu fel modelau rôl trosglwyddadwy ar gyfer disgyblion presennol – a thrwy helpu eu hen ysgol, gall yr alumni hyn gyfrannu at eu cymunedau a rhannu profiadau gwerthfawr.

Penodwyd Gyrfa Cymru i gyflawni'r prosiect, a dyrannwyd bron i £70,000 iddo i recriwtio o leiaf 20 o gyn-fyfyrwyr ar gyfer pob un o'r ysgolion dan sylw. Dechreuodd y gwaith cynllunio yn ystod 2019, ac oherwydd COVID-19, newidiodd y ffocws tuag at ymgysylltu digidol â disgyblion yn hytrach nag wyneb-yn-wyneb.

Er mwyn cefnogi'r fenter, mae'r elusen Future First – sydd â mwy na 10 mlynedd o brofiad o ddarparu cynlluniau cyn-fyfyrwyr – wedi datblygu pecyn cymorth o ganllawiau ac adnoddau y bydd pob ysgol uwchradd yn gallu eu defnyddio. Elfen bwysig o'r prosiect fydd ymchwilio i sut y gellir parhau â'r cynllun y tu hwnt i oes Tasglu'r Cymoedd a'i gyflwyno ledled Cymru.

Menter arall a gefnogir gan y Gronfa Arloesi yw'r prosiect Crucible ym Merthyr Tudful, sy'n ceisio denu hanner miliwn o ymwelwyr y flwyddyn a chreu cannoedd o swyddi newydd. Mae'r Tasglu wedi dyrannu £1.28m o gyllid tuag at weithgaredd, gan gynnwys cynhyrchu astudiaeth archifol a fydd yn helpu i greu'r glasbrint ar gyfer y prosiect nodedig hwn yng ngogledd y Cymoedd.

---

## Trafnidiaeth

Nod y flaenoriaeth hon oedd nodi a hyrwyddo atebion trafndiaeth arloesol a oedd yn mynd i'r afael ag anghenion cymunedau. Roeddent yn cynnwys datblygu opsiynau teithio llesol, integreiddio trafndiaeth gyhoeddus yn well, cydweithredu â Trafnidiaeth Cymru, a gwneud y mwyaf o fanteision economaidd buddsoddiadau i wella'r A465, sef ffordd Blaenau'r Cymoedd. Er bod y thema hon yn seiliedig ar farn y gymuned i raddau helaeth, roedd effeithiau'r pandemig COVID-19 yn rhwystro cyflawni'r amcanion hyn.

Lansiwyd prosiect peilot O'r Cymoedd i'r Gwaith, gan ddarparu dau fws mini cymunedol fel y gallai pobl o'r Rhondda Fach Uchaf deithio i'r gwaith mewn ardaloedd y tu allan i'w hardal uniongyrchol, gan gynnwys Trefforest a Llantrisant.

Gwnaed defnydd da o'r gwasanaeth. Defnyddiwyd y gwasanaeth cyntaf yn llawn yn ystod ei fis cyntaf, gan ei fod yn caniatáu i bobl deithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith ar adeg pan nad oedd trafndiaeth gyhoeddus ar gael.

# Beth mae'r Tasglu wedi'i gyflawni?

## Parc Rhanbarthol y Cymoedd

Y syniad y tu ôl i Barc Rhanbarthol y Cymoedd oedd datgloi potensial treftadaeth naturiol a diwylliannol y Cymoedd a gwneud y gorau ohono, gan greu manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Penodwyd tîm cyflawni, wedi'i letya gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, i sefydlu'r Parc Rhanbarthol. Roedd ei dasgau cychwynnol yn cynnwys datblygu rhwydwaith o safleoedd Pyrth Darganfod, cychwyn y cynllun Gwarcheidwaid, a sefydlu cynlluniau peilot – gan gynnwys un i gyflwyno lleoedd cydweithio. Yn bwysicaf oll, cymerodd gamau i sicrhau cyllid ar gyfer Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn y dyfodol, fel y gellid ei gynnal yn yr hirdymor.

Darparodd Tasglu'r Cymoedd £7m o gyllid i wella seilwaith cyfalaf ar draws 12 safle Pyrth Darganfod.

Mae tîm Parc Rhanbarthol y Cymoedd wedi mynd ymlaen i sicrhau cyllid o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a'r Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP) i gefnogi ei waith yn y dyfodol.

Ystyriaeth allweddol yng nghan nesaf y gwaith fydd datblygu model gweithredu parhaol, gan sicrhau bod y cysyniad yn cael ei gynnal.

Mae partneriaeth Parc Rhanbarthol y Cymoedd wedi'i sefydlu, sy'n cynnwys cydweithredu ar draws 13 o awdurdodau lleol, a ffurfiwyd grŵp gweithredol, gan gynnwys aelodau o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a Bargaen Ddinesig Bae Abertawe. Mae gwerthusiad annibynnol yn cael ei wneud ar waith y Parc Rhanbarthol i asesu'r effaith y mae wedi'i chael hyd yn hyn.





## Ffeithiau a ffigurau

### Ein Cymoedd, Ein Buddsoddiad

#### Crynodeb o gyfraniad y Tasglu ers 2016



Fe wnaeth Llywodraeth Cymru fuddsoddi **£12m** yn y Grant Cartrefi Gwag. Derbyniwyd **dros 600 o geisiadau** ar gyfer y Grant Cartrefi Gwag.



Fe wnaeth dros **600 o bobl** o bob rhan o'r cymoedd ddod i ddigwyddiadau'r Tasglu a oedd yn canolbwyntio ar faterion cymunedol lleol, trafniadaeth, cymorth busnes a thirwedd a'r amgylchedd.

Buddsoddwyd **£100,000** i ehangu cynllun peilot Big Bocs Bwyd i'r cymoedd. Bydd gan bum ysgol gynwysyddion Big Bocs Bwyd a fydd yn rhoi bwyd i deuluoedd ac yn datblygu llythrennedd bwyd.

**£7m** wedi'i fuddsoddi i ddatblygu 12 Porth Darganfod ar draws y Cymoedd.



Darparwyd **£200,000** yr un i Ferthyr Tudful, Caerffili a Phontypridd i ddatblygu canolfannau trafniadaeth integredig uchelgeisiol.

Buddsoddwyd **£250,000** mewn cynllun teithio ymatebol integredig dan arweiniad Trafnidiaeth Cymru ym Mlaenau Gwent.

**£39,000** wedi'i fuddsoddi mewn rhwydwaith cymheiriaid gan ddod â 10 sylfaenydd busnes yn y Cymoedd at ei gilydd i gynnig cefnogaeth i'w gilydd a hybu cadernid.



Darparwyd **£2.4m** i gefnogi **27 o brosiectau arbrofol** â'r nod o gryfhau'r economi sylfaenol.

Buddsoddwyd **£650,000** i ail-ddatblygu Neuadd y Dref Maesteg.



Gwnaeth **9 awdurdod lleol** gais am hyd at **£3m** o gyllid i gefnogi canol trefi llai i adfer ar ôl COVID. Crëwyd pedwar man gweithio o bell i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i alluogi 30% o bobl yng Nghymru i weithio'n agosach i'w cartrefi.

Buddsoddwyd **£170,000** i ddatblygu canolfannau gweithio o bell yn Llyn Llech Owain a Pharc Bryn Bach.

Mae Tasglu'r Cymoedd wedi helpu mwy na **7000 o bobl** i gael gwaith.



Mae **£75,000** wedi'i fuddsoddi yn natblygiad cynllun Cyn-ddisgyblion arbrofol ar gyfer 10 ysgol uwchradd yn ardal y Tasglu. Mae **230 o gyn-fyfrwyr** yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i ddatblygu rhwydweithiau gyda'u cyn-ysgolion - gan gynnig cymorth ac arweiniad. Gall ysgolion uwchradd ledled Cymru gael pecyn cymorth, a ddatblygwyd gan Future First, i'w cefnogi i ddatblygu eu cynllun cyn-ddisgyblion eu hunain a helpu pobl ifanc i gael y dechrau gorau i'w gyrfaedd yn y dyfodol.

Sicrhodd Dog Furiendly, busnes yn y Cymoedd, fuddsoddiad o **£75,000** gan syndicet o fuddsoddwyr angylion o dde Cymru ac Angylion Buddsoddi Cymru yn dilyn digwyddiad ar ffurf Dragons' Den a gynhaliwyd gan Dasglu'r Cymoedd mewn partneriaeth â Creu Sbarc.

**£1.28m** wedi'i fuddsoddi i ddatblygu prosiect diwylliant a threftadaeth byd-enwog yng Nghastell Cyfarthfa.

## Astudiaethau Achos



### Cronfa Her yr Economi Sylfaenol

**Mae'r gronfa hon wedi cefnogi ystod eang o brosiectau arloesol. Er enghraifft, dangosodd Elite Paper Solutions sut y gallai mentrau cymdeithasol chwarae mwy o ran yn yr economi sylfaenol, a sut y gallai'r gronfa helpu i uwchsgilio unigolion difreintiedig, gan ddatblygu gweithlu mwy amrywiol.**

Menter gymdeithasol wedi'i lleoli ym Merthyr Tudful yw Elite Paper Solutions ac mae'n helpu unigolion sydd bellaf o'r farchnad lafur i gael profiadau a sgiliau cyflogadwyedd. Cafodd grant o Gronfa Her yr Economi Sylfaenol, gan ei galluogi i gyflawni contractau ar raddfa fwy yn ei maes gwaith yn ymwneud â storio dogfennau a rhwygo dogfennau sy'n cynnwys data.

Buddsoddwyd y grant mewn eitemau cyfalaf a refeniw, gan gynnwys cyflogi cynghorydd cyflogaeth i helpu mwy o bobl i elwa o'r cyfleoedd newydd a ddaeth i'r amlwg.

Llwyddodd y fenter i ychwanegu £90,000 at ei refeniw drwy gontactau newydd, gan arwain at recriwtio naw aelod newydd o staff. Roedd Elite hefyd yn gallu darparu mwy o gyfleoedd hyfforddi a phrofiad gwaith i bobl anabl, disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a phobl a oedd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir.

Mewn enghraifft arall, wedi'i harwain gan Gymdeithas Tai Rhondda gyda phartneriaid yn cynnwys Croeso i'n Coedwig a Siambr Fasnach Treorci, llwyddwyd i adfywio'r stryd fawr yn Nhreorci, Treherbert a Thonypandy.

Penodwyd swyddog datblygu i gefnogi'r gwaith yn ystod yr hyn a fu'n gyfnod anodd iawn i fanwerthwyr y stryd fawr yn ystod y pandemig COVID-19.

Roedd y prosiect yn cynnwys ymchwil gyda staff a chontractwyr, ac yna gweithredu polisiau ac arferion caffael newydd.

Un o'r gwersi allweddol o'r prosiect oedd nad oedd unigolion neu fusnesau yn gallu uniaethu â'r term 'economi sylfaenol': roedd ymadroddion fel 'gweithio gyda ni' a 'chefnogi busnesau lleol' yn cael eu deall yn well.

## Astudiaethau Achos

### Peilot Rhwydwaith Rhwng Cymheiriaid

**Cyflwynodd Busnes Cymru raglen rhwydwaith cymorth rhwng cymheiriaid, gan gynnwys cyfres o gyfarfodydd rhwydwaith undydd misol, i 10 arweinydd busnes wedi'u lleoli yn y Cymoedd. Roedd y cyfarfodydd yn cynnwys siaradwyr gwadd, sesiynau dysgu gweithredol a chlinigau rhwng cymheiriaid.**

Canfu gwerthusiad annibynnol fod barn y cyfranogwyr am y sesiynau yn gadarnhaol. Helpodd y rhwydwaith i roi persbectif newydd iddynt, datblygu eu hyder fel arweinwyr a'u gwneud yn fwy gwydn yn wyneb heriau busnes.

Gorfodwyd y rhwydwaith i gyfarfod o bell, oherwydd y pandemig COVID-19 ac fe wnaeth hynny lesteirio cyflwyniadau rhyngweithiol a thrafodaethau digymell rhwng y cyfranogwyr.

Daeth y gwerthusiad i'r casgliad fod y rhwydwaith i bob pwrpas wedi helpu i ddatblygu capasiti arwain ar draws ardal y Tasglu.

Roedd effeithiau cadarnhaol ar y busnesau yn cynnwys cyflwyno strwythurau ac arferion mwy proffesiynol, mynd i'r afael â phroblemau hirsefydlog, gwella dulliau o farchnata a chysylltiadau cwsmeriaid, a rhoi trefniadau ar waith i hwyluso twf.

### Y Rhaglen Fynediad

**Mae cynllun cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru gwerth £2.2m wedi'i gyflawni ar draws rhanbarth y Tasglu ers mis Hydref 2017, gan helpu pobl i wella eu sgiliau cyflogadwyedd ac i sicrhau gwaith. Erbyn mis Awst 2020, roedd y Rhaglen Mynediad wedi cefnogi 2,969 o oedolion di-waith.**

Mae'r gefnogaeth, a gyflwynwyd ar y cyd â Gyrfa Cymru, wedi cynnwys:

- grant hyfforddiant galwedigaethol o hyd at £1,500 i helpu unigolion i ddiweddarau eu sgiliau.
- cymorth i gael gwared ar rwystrau i hyfforddiant galwedigaethol.
- cyfraniad tuag at gyflogau a help gyda chostau hyfforddi ar gyfer cyflogwyr sy'n recriwtio.

Canfu Adroddiad annibynnol, Gwerthusiad o'r Rhaglen Mynediad: 2017 i 2019, fod y rhaglen wedi cael ei chyflawni'n llwyddiannus, a bod ei dull amlasiantaethol yn gweithio'n effeithiol.

Canfuwyd bod chwarter y cyfranogwyr wedi sicrhau canlyniadau cyflogaeth da, ac roedd argaeledd grantiau hyfforddiant galwedigaethol yn chwarae rhan bwysig wrth helpu cyfranogwyr i ddod o hyd i waith.



## Astudiaethau Achos

### Y fenter Pitch It

**Cydweithiodd Creu Sbarc, Busnes Cymru, Banc Datblygu Cymru ac Angylion Buddsoddi Cymru i drefnu digwyddiad Pitch It ar gyfer ardal y Cymoedd, yn dilyn llwyddiant digwyddiad tebyg yng Nghaerdydd.**

Roedd y fenter yn gyfle i fusnesau ymgeisio am fenthyciad gan fuddsoddwyr angylion a'r Banc Datblygu.

Yn dilyn galwad i fusnesau yr oedd angen buddsoddiad arnynt, mynegodd 80 o fusnesau ddiddordeb yn y fenter. Ar ôl llunio rhestr fer, gwahoddwyd 15 busnes i gam cynderfynol, gyda phump yn symud ymlaen i'r rownd derfynol.

Bu dau fusnes yn llwyddiannus yn eu cais am gyllid, a manteisiodd eraill ar y cynnig o gymorth mentora.

Cafodd y busnesau hynny na fuont yn llwyddiannus adborth gan entrepreneuriaid a buddsoddwyr busnes.

Roedd DogFuriendly yn un o'r busnesau llwyddiannus, gan sicrhau buddsoddiad o £75,000 i ehangu ei blatfform teithio ar-lein sy'n helpu perchnogion i ddod o hyd i leoedd ymweld â nhw sy'n gyfeillgar i gŵn ledled y DU.

Mae cefnogaeth gan fwrdd buddsoddwyr ymroddedig wedi bod yn achubiaeth i'r busnes yn ystod y pandemig COVID-19, gan ei helpu i gynyddu ei gymuned o ddefnyddwyr a gweithio'n strategol gydag ystod fwy o bartneriaid.



## Astudiaethau Achos

### Swyddi Gwell yn Nes at Adref

Lansiodd y Tasglu bedwar cynllun peilot masnachol mewn ymateb i ymgyrch Swyddi Gwell yn Nes at Adref gan TUC Cymru. Defnyddiodd y rhain ddeddfwriaeth gaffael i helpu ffatrioedd presennol a newydd i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ddifreintiedig yn yr ardaloedd lle ceir y lefelau uchaf o amddifadedd yng Nghymru.

Roedd y pedwar peilot, a arweiniodd at greu 132 o swyddi, yn cynnwys:

- creu swyddi newydd yng Nglynebwy, yn y sector gweithgynhyrchu dillad. Penododd y cynllun peilot hwn bartner menter gymdeithasol i weithredu uned weithgynhyrchu.
- darparu cyflogaeth amser llawn i staff rhan-amser presennol yn EBO Signs yng Nglynebwy – menter gymdeithasol sy'n bodoli eisoes sy'n cyflogi pobl ddifreintiedig.
- sefydlu ffatri ailbeiriannu paent yn Rhondda Cynon Taf. Creodd hyn swyddi newydd gan leihau carbon corfforedig yng nghadwyn gyflenwi'r diwydiant adeiladu yng Nghymru.
- cynnydd yn y galw am wasanaeth sy'n ymdrin â phapur gwastraff i Elite Paper Solutions ym Mhentre-Bach, Merthyr Tudful. Creodd hyn gyfleoedd i bobl ddifreintiedig gael profiad gwaith hanfodol.



# Astudiaethau Achos

## Big Bocs Bwyd

Rhoddwyd mynediad i bum ysgol ar draws ardal y Cymoedd at Big Bocs Bwyd – cynhwysydd llongau wedi'i drawsnewid lle y gallant ddysgu am fwyd a thyfu eu cynnyrch eu hunain. Ariannwyd y fenter drwy £100,000 gan y Tasglu mewn partneriaeth â Pharc Rhanbarthol y Cymoedd, ac fe'i treialwyd mewn dwy ysgol yn y Barri cyn ei hystyngiadau ar draws y Cymoedd.

Mae pob cynhwysydd yn cynnig storfa ddiogel, cyfleuster siop, gwelyau ar lefel uwch ar gyfer tyfu planhigion a man cyfarfod i grwpiau bach. Mae ysgolion wedi cael cefnogaeth i gynnal a chadw'r cyfleuster, ac yn gallu gwerthu unrhyw nwyddau dros ben ar sail 'talw fel y teimlwch'.

Mae disgyblion sy'n ymwneud â'r cynllun yn elwa o gael gwell gwybodaeth am dyfu a pharatoi bwyd, ac yn datblygu sgiliau menter drwy werthu'r cynhyrchion y maent wedi'u tyfu. Mae teuluoedd lleol yn gallu cael gafael ar fwyd iach am ddim neu'n rhad.



Yr ysgolion sydd wedi elwa o gynhwysyddion Big Bocs Bwyd yw:

- Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa ym Merthyr
- Ysgol Gynradd Gatholig St Margaret yn Aberdâr
- Ysgol Gynradd Cwmfelin ac Ysgol Gynradd Garth ym Maesteg
- Ysgol Feithrin Rhydaman, Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman.

“

Meddai Lee Waters AS, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth:

**Mae manteision y prosiect arloesol Big Bocs Bwyd i'w gweld yn glir. Mae datblygu gwell dealltwriaeth am fwyd ymhlith plant yn allweddol er mwyn meithrin hyder ynghylch sut i brosesu a choginio gwahanol fwydydd, a bydd yr adnoddau dysgu sy'n cael eu cynnig yn helpu'r plant i ddeall a gwerthfawrogi'r cysylltiadau rhwng bwyd, natur a'r economi. Mae'r prosiect hwn hefyd yn bwysig fel ffordd o gynnig cynnyrch da i deuluoedd yn rhad ac am ddim neu am brisiau fforddiadwy, a fydd o fudd i iechyd a lles pobl.**



## Astudiaethau Achos

### Cydweithio â'r sector gofal

**Drwy Dasglu'r Cymoedd, cydweithiodd Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a Busnes Cymru i ddarparu prosiect peilot ar gyfer darparwyr gofal cymdeithasol yn y Cymoedd.**

Nod hwn oedd cefnogi a gwella ymgysylltiad â chartrefi gofal a darparwyr gofal cartref ar draws tri awdurdod lleol (Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful).

Dechreuodd y peilot, a oedd hefyd yn cynnwys timau comisiynu gofal cymdeithasol awdurdodau lleol, y GIG ac Arolygiaeth Gofal Cymru, gyda digwyddiadau ymgysylltu er mwyn recriwtio busnesau'r sector gofal.

Cafwyd sesiynau diagnostig dilynol yn cynnwys y busnesau hyn ac ymgynghorwyr Busnes Cymru, ac yna gyfres o weithdai ar bynciau a nodwyd fel meysydd pryder, megis cyllid, cyllidebau, tendro a rheoli adnoddau dynol.

Yn dilyn cyflawni'r prosiect peilot yn llwyddiannus, cafodd ei ymestyn i ardaloedd dau awdurdod arall: Castell-nedd Port Talbot a Chaerdydd.

Mae wedi arwain at fwy o werthfawrogiad o fewn Busnes Cymru o'r problemau sy'n wynebu'r sector gofal cymdeithasol, ac wedi helpu i wella ei ddealltwriaeth o sut i ymgysylltu'n llwyddiannus â busnesau gofal cymdeithasol.

### Y prosiect peilot Trafnidiaeth Ymatebol Integredig

**Bydd y prosiect cydweithredol hwn rhwng Trafnidiaeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cyflwyno gwasanaeth bysiau mwy hyblyg ar draws dau lwybr yn y sir.**

Bwriad y prosiect yw mynd i'r afael â phryderon am drafnidiaeth gyhoeddus a godwyd gan aelodau'r gymuned yn ystod ymarfer ymgysylltu'r Tasglu.

Bydd hyn yn caniatáu i deithwyr wneud cais am wasanaeth mewn 'rhith-safleoedd bysiau', a fydd yn caniatáu codi neu ollwng teithwyr mewn lleoedd heblaw safleoedd bysiau pwrpasol.

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn ariannu'r fenter o'i gronfeydd presennol, ac yn ddiweddar mae wedi dyfarnu contract i ddarparu'r gwasanaeth.

# Astudiaethau Achos

## Hybiau Cymunedol

**Ymchwiliodd y Tasglu i sut i ddod ag ystod o wasanaethau cyhoeddus ynghyd o dan yr un to mewn hybiau cymunedol. Gweithiodd gydag awdurdodau lleol, y GIG a sefydliadau'r trydydd sector i nodi'r bylchau yng ngwasanaethau presennol yr hybiau.**

Mapiwyd cyfleoedd i gefnogi'r dull hyb cymunedol ar draws adrannau Llywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau rhwydweithio, gan alluogi partneriaid y sector cyhoeddus a thrydydd sector yn y Cymoedd i rannu arferion da ac i ddatblygu canllawiau i'r rhai sy'n dymuno datblygu hybiau newydd.

Sefydlwyd un hyb cymunedol o'r fath yng Nglynrhedynog, Rhondda Cynon Taf.

Mae'r cysyniad hefyd yn cael ei ddefnyddio gan Trafnidiaeth Cymru a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd, i ddarparu lleoedd ble y gall aelodau o'r gymuned leol gwrdd, defnyddio gwasanaethau neu drefnu digwyddiadau cymunedol.



# Astudiaethau Achos



## Pyrth Darganfod

**Fel rhan o Barc Rhanbarthol y Cymoedd, mae 12 o barciau gwledig a safle treftadaeth wedi'u nodi fel Pyrth Darganfod. Mae'r rhain wedi cael cyllid i wneud y mwyaf o botensial asedau naturiol a diwylliannol yr ardal.**

Mae gwelliannau i'r safleoedd wedi cynnwys ardaloedd chwarae a chanolfannau ymwelwyr, yn ogystal â llwybrau cerdded a beicio. Ymhlith yr enghreifftiau mae buddsoddiad o £612,000 ym Mharc Bryn Bach, Tredegar.

Mae hyn wedi arwain at welliannau i'r byncws a'r ganolfan ymwelwyr, datblygu man chwarae newydd gyda chyfarpar pren, a gwell llwybrau teithio llesol i gysylltu'r parc â chymunedau lleol.

Disgwylir i'r safleoedd gydweithio, gan annog defnyddwyr pob Porth Darganfod i ymweld ag eraill.

Dywed Mark Drakeford AS,  
Prif Weinidog Cymru:

“

**Yn ogystal â dod yn gyrchfannau yn eu rhinwedd eu hunain, mae gan Byrth Darganfod gyfle gwych i adrodd straeon y Cymoedd ac annog pobl leol ac ymwelwyr i grwydro o gwmpas ardaloedd cyfagos, gan gynnwys trefi a phentrefi lleol, a'r dirwedd ehangach.**

Dywedodd llawer o bobl leol fod gallu cael mynediad i fannau gwyrdd lleol yn bwysig i'w hiechyd meddwl a'u gwytnwch yn ystod y cyfyngiadau symud yn sgil COVID-19. Defnyddiwyd y buddsoddiad hefyd i ddatblygu hyb gweithio o bell gyda chyfleusterau cysgodol ar gyfer cyfarfod yn yr awyr agored, gan helpu pobl i elwa o'r amgylchedd naturiol yn ystod y diwrnod gwaith.





## Astudiaethau Achos

### Cynllun Gwarcheidwaid Parc Rhanbarthol y Cymoedd

Nod y cynllun hwn, a ddarperir gan dîm o saith Gwarcheidwad a gyflogir gan Groundwork, yw cysylltu pobl â'u tirweddau lleol. Mae'r Gwarcheidwaid yn gweithio gyda phlant, teuluoedd, pobl oedrannus a grwpiau eraill i'w hannog i gymryd rhan mewn gwaith gwirfoddoli amgylcheddol, gwaith cadwraeth, teithiau cerdded llesiant, gweithgareddau byw yn y gwyllt a chreu gerddi cymunedol.



Mae ystod o sefydliadau partner yn cyfeirio pobl at y cynllun, gan gynnwys ysgolion, clystyrau meddygon teulu, cymdeithasau tai, y Ganolfan Byd Gwaith, canolfannau teulu, cynghorau gwasanaethau gwirfoddol lleol ac ysbytai.

Mae'r cyfranogwyr yn elwa o wella iechyd meddyliol a chorfforol, mwy o hyder, mwy o falchder yn eu hardal leol a'r cyfle i ddysgu sgiliau a chymwysterau newydd. Mae cymunedau lleol yn elwa o'r gwaith cadwraeth ac atgyweirio a wneir gan dimau lleol.

Daeth un cyfranogwr yn wirfoddolwr ar ôl cael ei roi ar ffyrlo yn ystod y pandemig COVID-19. Daeth yn rhan o eco-brosiect lleol, a chafodd brofiad o dyfu llysiau a ffrwythau, magu ieir, gwneud blychau adar a chreu gwelyau uchel ar gyfer planhigion a blodau cyfeillgar i wenyn.

“

Meddai:

**Rwyf wedi dod i fwynhau fy amser yn fawr yn yr eco-grŵp, yn cwrdd â phobl a gwneud ffrindiau newydd, yn mynd allan i'r awyr iach ac yn cael profiadau newydd. Rwyf wedi dysgu llawer o sgiliau newydd – gallaf nawr ddefnyddio dril, llif llaw a morthwyl yn hyderus. Rwyf wrth fy modd yn gweld y gymuned yn gwneud defnydd llawn o'r eco-ardd newydd, yr wyf wedi helpu i'w chreu.**

# Astudiaethau Achos



## Trawsnewid trefi

**Mae'r rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio yn un o gronfeydd Llywodraeth Cymru sy'n darparu buddsoddiad i gefnogi trefi strategol Cymru.**

Gweithiodd y Tasglu yn agos gydag awdurdodau lleol a chydweithwyr adfywio yn Llywodraeth Cymru i ddatblygu prosiectau eraill y gellid eu hariannu ar draws canol trefi llai y Cymoedd, gan ategu buddsoddiadau'r rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio.

Ariannwyd y prosiectau ychwanegol hyn ar draws awdurdodau Cymoedd y de-ddwyrain drwy danwariant Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio, gyda £2 filiwn wedi'i ddyrannu i'r datblygiadau.

Darparodd y Tasglu £700,000 ar draws y prosiectau canol trefi bach a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

Llwyddodd y Tasglu i ailddyrannu cyllid a neilltuwyd yn wreiddiol i ymestyn y rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio. Ategodd hyn ag arian a ddyrannwyd i beilot trafndiaeth gorllewin y Cymoedd nad oedd modd bwrw ymlaen ag ef oherwydd effaith COVID-19.

O ganlyniad, dyrannwyd £3m i ganol trefi'r Cymoedd sy'n wynebu'r risg economaidd fwyaf yn sgil y pandemig.

Mae hyn yn ymateb uniongyrchol i astudiaeth ddiweddar gan y Ganolfan Trefi, a nododd y lleoedd ledled y DU sy'n wynebu'r bygythiad economaidd mwyaf yn sgil COVID-19.

O blith yr 20 tref y nodwyd eu bod yn dioddef effeithiau gwaethaf amddifadedd difrifol, roedd 10 yng Nghymru a saith yn ardal Tasglu'r Cymoedd.

Ymhlith yr enghreifftiau o brosiectau a gefnogir gan yr arian hwn mae:

- rhoi grant i fusnesau ledled y rhanbarth i wneud gwelliannau i'w hadeiladau megis yng Nghlydach a Phontarddulais yn awdurdod lleol Abertawe.
- darparu seddi a chyfleusterau cyfarfod yn yr awyr agored yn Nantymoel, Pen-y-bont ar Ogwr.
- prynu gasebos cadarn er mwyn cynnal digwyddiadau a gwyliau yn yr awyr agored, megis ledled ardal Castell-nedd Port Talbot.
- datblygu mannau amgylchedd naturiol hygyrch, megis yng Ngolchfa Bro Ogwr, Pen-y-bont ar Ogwr.
- datblygiadau seilwaith digidol yng nghanol trefi, megis mynediad am ddim i wifi yng nghanol trefi ym Mlaenau Gwent.

## Astudiaethau Achos



### Prosiectau peilot hybiau gweithio o bell

Mae'r Tasglu wedi darparu £344,494 i gefnogi'r gwaith o ddatblygu pedwar prosiect peilot hybiau gweithio o bell ar draws rhanbarth y Cymoedd.



Bydd dau o'r rhain yn Rhondda Cynon Taf a dau yng Nghaerffili. Fe'u lleolir yn y mannau canlynol:

- Rhondda Housing Association, Tonypany
- Llwynypia Courthouse, Tonypany
- The Winding House, New Tredegar
- Ty Penallta, Ystrad Mynach

Darparwyd £170,000 ychwanegol i ddatblygu hybiau gweithio o bell mewn dau Borth Darganfod, sef Parc Bryn Bach a Llyn Llech Owain.

Mae'r hybiau hyn yn canolbwyntio ar fanteision ymgorffori natur mewn arferion beunyddiol a llesiant.

Bydd y cyfleusterau hyn yn cael eu datblygu'n ofodau a all ddiwallu anghenion gweithwyr proffesiynol a pherchnogion busnesau bach. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd mynediad i ystafelloedd cyfarfod preifat a chyfleusterau caffi ar gael.


Bydd canlyniadau'r cynllun peilot hwn yn helpu i lywio'r dull o fynd i'r afael ag uchelgais hirdymor Llywodraeth Cymru i weld tua 30% o weithwyr Cymru yn gweithio o'u cartrefi neu'n agos atynt.



# Astudiaethau Achos

## Map Data Cymru

Cydweithiodd y Tasglu yn llwyddiannus ag adrannau eraill Llywodraeth Cymru ar ddatblygu proffil map digidol ar gyfer y Cymoedd, gan ddefnyddio'r offeryn mapio data Lle. Daeth â gwybodaeth wahanol ynghyd o bob rhan o'r Cymoedd ar amrywiaeth o themâu, gan helpu'r Tasglu i ddelweddu anghenion gwahanol y cymunedau lleol ar un map sy'n seiliedig ar ddata.



Roedd y wybodaeth a fapiwyd gan yr offeryn yn cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol, ysgolion, practisau meddygol, llwybrau trafnidiaeth, ardaloedd menter a chwmnïau o bwys rhanbarthol.

Roedd hefyd yn ymgorffori ystod eang o ystadegau megis cyfraddau diweithdra, lefelau cyrhaeddiad ysgolion a diogelwch cymunedol. Mae'r data hyn wedi helpu'r Tasglu i ddeall lle roedd angen ymyriadau, lle y byddent yn cael yr effaith fwyaf, a sut i nodi ac ymgysylltu â'r rhanddeiliaid cywir.

Bu'r map o gymorth i greu'r momentwm i ddatblygu Lle i fod yn geo-borth mwy cynhwysfawr, o'r enw Map Data Cymru.

Nod hyn yw darparu cyd-blattform a fydd o fudd i ystod ehangach o gyrff cyhoeddus, gan eu helpu i gyhoeddi, cynnal a darparu gwell mynediad cyhoeddus i'r data y maent yn eu cadw. Mae gan Fap Data Cymru y potensial i gryfhau'r gwasanaethau a ddarperir gan y sector cyhoeddus i gymunedau ledled Cymru.

## Pa wersi a ddysgwyd?

**Bydd y prif wersi a ddysgwyd gan Dasglu'r Cymoedd o'i brofiadau ei hun yn darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer dulliau gweithredu yn y dyfodol:**

- Mae'n bwysig cael arweinyddiaeth wleidyddol gref i yrru'r rhaglen yn ei blaen – yn fewnol o fewn Llywodraeth Cymru, yn allanol gan sefydliadau rhanddeiliaid, ac yn ehangach gan gymunedau a phobl yn y Cymoedd.
- Mae cael y bobl iawn ar y Tasglu yn allweddol, ac mae'n hanfodol cael y cydbwysedd iawn rhwng aelodau gwleidyddol ac unigolion o ystod eang o sectorau. Mae angen i aelodau feddu ar yr arbenigedd cywir, a bod yn glir ynghylch y cyfraniad y gallant ei wneud.
- Mae'n hanfodol ymgysylltu ag uwch gynrychiolwyr (a chael ymrwymiad ganddynt) ar draws sefydliadau rhanddeiliaid. Mae angen i hyn gael ei ategu gan gydweithrediad ystyrlon â swyddogion o'r sefydliadau rhanddeiliaid hyn, gan adeiladu ar rwydweithiau a pherthnasoedd sydd eisoes yn bodoli.
- Rhaid i ymgysylltiad cyhoeddus llwyddiannus ddefnyddio'r rhwydweithiau presennol yn effeithiol, a thynnu ar gynrychiolaeth awdurdodau lleol mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Mae angen ei gydlynu drwy uned ganolog er mwyn osgoi dyblygu ymdrech.
- Rhaid i unrhyw raglen drawslywodraethol ddyrannu amser i ymgysylltu â staff Llywodraeth Cymru er mwyn codi ei phroffil a gwella'r ddealltwriaeth o'i hamcanion. Mae'r gynulleidfa fewnol hon yr un mor bwysig â'r un allanol o ran sicrhau ymrwymiad i ganlyniadau cyffredin.
- Gall cyfathrebu cyflawniadau rhaglen drawslywodraethol fod yn heriol. Mae dosbarthu cylchlythyrau rheolaidd i rhanddeiliaid yn ffordd effeithiol o hysbysu pobl am y cynnydd sy'n cael ei wneud.
- Mae angen adnoddau ariannol priodol ar gyfer cynllun cyflawni rhaglen sy'n uchelgeisiol. Mae hyn yn dibynnu ar ymgysylltu ag arweinwyr cyllid ar gam cynnar yn natblygiad y rhaglen. Byddai'n werth ymchwilio i gyllideb gyfun ar gyfer cyflawni'r rhaglen yn drawslywodraethol yn y dyfodol.

## Adborth annibynnol

**Roedd aelodau Tasglu'r Cymoedd o'r farn ei bod yn bwysig bod unrhyw wersi a ddysgwyd o'i brofiad yn cael eu cofnodi a'u defnyddio i lywio dulliau gweithredu yn y dyfodol. O'r herwydd, comisiynwyd adolygiad annibynnol dan arweiniad Ymchwil OB3 gan Lywodraeth Cymru. Gweinyddwyd arolwg ar-lein o randdeiliaid yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.**

Daeth adolygiad OB3 i'r casgliad fod achos cryf dros sefydlu dull i fynd i'r afael â'r problemau economaidd-gymdeithasol hirdymor sy'n wynebu'r Cymoedd, a bod gan y Tasglu'r potensial i ddarparu dull gwahanol wedi'i deilwra i wella ffyniant y cymunedau hyn.

Roedd cael cylch gwaith ledled y rhanbarth wedi helpu i ddarparu llais eirioli cryf i gymunedau'r Cymoedd, yn unol â dull rhanbarthol sy'n fwyfwy seiliedig ar leoliad o ddatblygu polisi a chyflawni rhaglenni ledled Cymru.

Canfu'r adolygiad hefyd fod blaenoriaethau a chynllun cyflawni Tasglu'r Cymoedd wedi'u llywio'n dda gan weithgareddau ymgysylltu cymunedol cychwynnol ac adborth.

Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod y Tasglu wedi gwneud cynnydd da wrth ddod â chynrychiolwyr o wahanol sefydliadau a meysydd polisi at ei gilydd, gan arwain at ymdrechion cydweithredu a chydgyhyrchu effeithiol.

Canfuwyd bod llawer o'r cydweithrediadau hyn yn cynnwys gwaith trawslywodraethol rhwng gwahanol adrannau o Lywodraeth Cymru. Nodwyd sawl enghraifft lle roedd trafodaethau wedi'u harwain gan y Tasglu wedi gallu dylanwadu ar bolisïau, dulliau gweithredu a phenderfyniadau cyllido prif ffrwd presennol.

**O ran y ffordd o weithio, canfu'r adolygiad fod y rhanddeiliaid o'r farn:**

- bod y trefniadau llywodraethu wedi bod yn briodol. Nodwyd mai'r prif gryfderau oedd ymrwymiad gan gyrff ac unigolion strategol, arweinyddiaeth effeithiol gan y cadeirydd a ffordd dryloyw o weithio. Gallai'r rhaglen fod wedi elwa o strwythur symlach a mwy o fewnbwn ffurfiol gan y gymuned i'r tasglu gweinidogol.
- bod bwrdd y rhaglen wedi gweithredu'n effeithiol, ac wedi cyflawni rôl fonitro effeithiol.
- mai'r is-grwpiau gweithio a oedd wedi gweithredu'n fwyaf effeithiol oedd y rhai lle y cafwyd nifer dda o aelodau ymgysylltiedig, ac a arweiniwyd gan gadeiryddion ymroddedig.
- bod y diffyg cyllid cyfalaf a refeniw sylweddol wedi rhwystro ymdrechion y Tasglu, a gallai tîm gweithredol Llywodraeth Cymru fod wedi cael gwell adnoddau.
- bod y Tasglu wedi ymgysylltu'n effeithiol â sefydliadau rhanddeiliaid allweddol o ystod eang o sectorau ac ardaloedd daearyddol, ac wedi cryfhau'r cysylltiadau rhyngddynt.
- nad oedd dau sector, sef iechydd ac addysg, a rhai strwythurau rhanbarthol presennol (yn enwedig Bargeinion Dinesig) wedi ymwneud rhyw lawer â Thasglu'r Cymoedd.



## Adborth annibynnol

### O ran y cyflawniadau, canfu'r adolygiad fod y rhanddeiliaid yn meddwl:

- ei bod yn anodd ffurfio barn gadarn am y cynnydd a wnaed gan y Tasglu, yn rhannol oherwydd nad oedd ganddo ddangosyddion penodol ar waith i asesu perfformiad.
- bod cynnydd wedi'i lesteirio gan effaith COVID-19 yn ystod 2020. Roedd hyn wedi effeithio'n arbennig ar brosiectau neu syniadau'r Tasglu a oedd yn eu babandod neu wrthi'n cael eu datblygu ar ddechrau'r pandemig.
- bod y Tasglu wedi dod â sefydliadau ynghyd yn effeithiol, gan arwain at fwy o gydweithredu a chydgyhyrchu. Roedd hyn yn cynnwys gwaith trawslywodraethol rhwng gwahanol adrannau o Lywodraeth Cymru.
- bod y Tasglu wedi gweithredu'n effeithiol fel hyrwyddwr ac eiriolwr dros y Cymoedd. Nodwyd sawl enghraifft lle roedd trafodaethau wedi'u harwain gan y Tasglu wedi dylanwadu ar bolisiâu, dulliau gweithredu a phenderfyniadau cyllido prif ffrwd presennol.
- bod y mentrau a gefnogwyd gan y Tasglu wedi bod ar raddfa fach ac yn fach o ran eu heffaith yn bennaf, gan adlewyrchu'r cyllid a'r capasiti cyfyngedig sydd ar gael.
- mai'r Cynllun Grant Cartrefi Gwag a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd oedd dau o brosiectau mwyaf nodedig a llwyddiannus y Tasglu.
- bod cysylltiad â Thasglu'r Cymoedd yn rhoi mwy o fomentwm a statws i fentrau a grwpiau cymunedol presennol. Arweiniodd hyn yn ei dro at fwy o ddiddordeb a chefnogaeth gan sefydliadau eraill.

- mai effaith uniongyrchol eithaf cyfyngedig a gafodd y Tasglu ar gymunedau'r Cymoedd. Credwyd bod effeithiau cadarnhaol yn gysylltiedig yn bennaf â mentrau fel y Cynllun Cartrefi Gwag, prosiectau Cronfa Her yr Economi Sylfaenol a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd.

### Canfu arolwg ar-lein Llywodraeth Cymru o 37 o randdeiliaid a oedd wedi bod yn gysylltiedig â Thasglu'r Cymoedd\*:

- fod 46% o'r farn bod y Tasglu wedi targedu'r pethau iawn, a 22% o'r farn nad oedd wedi gwneud hynny.
  - bod 76% o'r farn bod gwaith y Tasglu wedi newid yn ystod y cyfnod y buont yn ymwneud ag ef, a 24% o'r farn nad oedd wedi gwneud hynny.
  - bod 60% o'r farn bod y Tasglu wedi arwain at well cyfathrebu ag eraill yn eu maes blaenoriaeth, a 5% o'r farn nad oedd wedi gwneud hynny.
  - bod 65% o'r farn bod y Tasglu wedi arwain at fwy o gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth, ac 8% o'r farn nad oedd wedi gwneud hynny.
  - bod 65% o'r farn bod y Tasglu wedi cyflymu'r pethau yr oeddent wedi bod yn rhan ohonynt, ac 8% o'r farn nad oedd hynny'n wir.
  - bod 49% o'r farn na fyddai'r prosiectau yr oeddent wedi bod yn rhan ohonynt wedi mynd yn eu blaenau heb y Tasglu, a 24% o'r farn y byddent wedi mynd yn eu blaenau beth bynnag.
  - bod 42% o'r farn bod y Tasglu wedi gwneud gwahaniaeth i gymunedau'r Cymoedd, ac 14% o'r farn nad oedd wedi gwneud unrhyw wahaniaeth.
- \* Roedd cyfran o'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r datganiadau hyn.**

## Myfyrdodau

**Ychydig iawn a fyddai'n dadlau yn erbyn yr angen am ymyrraeth a chefnogaeth ychwanegol i fynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu'r Cymoedd.**



Roedd yr amcan hwn wrth wraidd y Tasglu. Ei nod oedd rhoi lle blaenllaw i anghenion cymunedau'r Cymoedd o ran datblygu polisi, gan ddefnyddio dull trawslywodraethol newydd. Roedd unigolion wedi ymrwymo i wneud i'r Tasglu weithio, a sicrhau nad oedd yn wynebu'r un problemau a welwyd gan raglenni cyflawni tymor byr blaenorol.

Mae gan bobl farn gymysg am lwyddiant Tasglu'r Cymoedd. Nid oedd llawer o aelodau'r cyhoedd yn ymwybodol o'i fodolaeth. Efallai nad yw hyn yn syndod, gan fod y Tasglu wedi canolbwyntio llawer o'i adnoddau a'i ymdrech ar newid ffyrdd o weithio – rhywbeth a ddylai arwain at newidiadau gwirioneddol a chynaliadwy yn y dyfodol. Cafodd y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn olaf, pan ddylai'r gwaith o gyflawni prosiectau a ariannwyd fod wedi bod ar ei uchaf, ei lesteirio'n ddifrifol gan effeithiau'r pandemig COVID-19.

Mae gan Dasglu'r Cymoedd ran bwysig i'w chwarae wrth dreialu dulliau gweithredu a syniadau newydd.

Nid oedd disgwyl i bob un o'r rhain lwyddo. Nid oedd modd cyflawni sawl prosiect peilot posibl. Cafodd eraill, fel y Cynllun Grant Cartrefi Gwag a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd, fwy o lwyddiant: roeddent ar raddfa digon mawr i wneud gwahaniaeth i gymunedau, ac roeddent yn uchel eu parch ymysg y rhanddeiliaid.

Byddant yn parhau i fodoli'n annibynnol ar Dasglu'r Cymoedd, gan ddarparu tystiolaeth bellach o'u gwerth.

Mae'r Tasglu wedi ceisio dylanwadu ar bolisïau ac ymyriadau a oedd eisoes ar waith, gan gyflymu a chynyddu gwelliannau i'r Cymoedd. Mae wedi gwasanaethu fel corff eirioli pwysig, gan roi ffocws craffach i'r Cymoedd ar bolisi prif ffrwd a darparu gwasanaethau.

## Myfyrdodau

Mae wedi helpu gyda datblygu perthnasoedd, gan annog cydweithredu a chydgyhyrchu, ac mae wedi helpu i leihau gweithio mewn seilos ar draws gwahanol feysydd polisi – yn enwedig o fewn Llywodraeth Cymru.

Roedd gan y dull gweithredu a fabwysiadwyd gan Dasglu'r Cymoedd lawer o gryfderau. Llwyddodd i gael adborth gan gymunedau ar yr hyn a ddylai fod yn flaenoriaethau iddo – ymatebion a ddefnyddiwyd yn effeithiol wedyn i lywio datblygiad y rhaglen. Roedd y dull hwn yn gwneud y Tasglu'n wahanol i'r rhaglenni a'i rhagflaenodd.

Mae yna lawer o newidiadau a gwelliannau y gellid eu hystyried i lywio unrhyw raglen debyg yn y dyfodol.

### Mae'r rhain yn cynnwys:

- sicrhau bod y gymuned yn cael ei chynrychioli'n well mewn strwythurau llywodraethu ffurfiol.
- sicrhau bod gan y tîm gweithredol adnoddau priodol i gyflawni amcanion y rhaglen.
- symleiddio'r strwythurau llywodraethu ar gyfer goruchwylio'r gwaith cyflawni.
- sicrhau bod cyllid ar gael o'r cychwyn sy'n ddigonol ar gyfer uchelgais y rhaglen.



**Nid oes neb yn gwadu bod Cymoedd y de yn parhau i wynebu llawer o heriau, ond mae'r tasglu wedi dangos o leiaf fod yr atebion i'w problemau i'w canfod yn y Cymoedd eu hunain.**

Lee Waters AS, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth  
(Rhagfyr 2020)



# Y dyfodol

## Daw rhaglen gyfredol Tasglu'r Cymoedd i ben ym mis Mawrth 2021.

Mae opsiynau ar gyfer adfywio yn y dyfodol a chynaliadwyedd tymor hwy Cymoedd De Cymru yn cael eu trafod yn weithredol gan weinidogion Llywodraeth Cymru.

Cytunwyd ar argymhelliad dros dro i'r weinyddiaeth newydd ystyried opsiynau cyflawni yn y dyfodol, o ran fforddiadwyedd a chydwyddiad.

Mewn cyfarfod i ystyried hyn, roedd aelodau'r Tasglu yn teimlo'n gryf bod yn rhaid parhau i ganolbwyntio ar adfywio'r Cymoedd, gyda phwyslais penodol ar ardaloedd Gogleddol (Blaenau'r Cymoedd) a Gorllewinol y Cymoedd.

Yr argymhelliad y cytunwyd arno yw cadw grŵp gweinidogol trawslywodraethol i oruchwylio adfywiad parhaus y Cymoedd am gyfnod trosiannol, gyda'r nod o ddatganoli mwy o gyfrifoldeb i bartneriaid cyflawni lleol.

Beth bynnag a roddir ar waith ar ôl Mawrth 2021, mae'n hanfodol ei fod yn adeiladu ar ein hymrwymiad i ddatblygu cymunedau sy'n fwy gwydn yn economaidd yn y Cymoedd.

Bydd Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn parhau ar ôl 2021, gan ei fod wedi sicrhau cyllid o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a'r Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP) tan 2023.

Bydd hyn yn caniatáu iddo ymchwilio i drefniadau llywodraethu hirdymor a dod o hyd i'r model gweithredu mwyaf priodol ar gyfer endid Parc Rhanbarthol – gan gynnwys ystyried a ddylid rhoi unrhyw ddynodiad arbennig i'r tir.

## Deunydd darllen pellach

Trafod y Cymoedd – Rhaglen Ymgysylltu: Adroddiad terfynol (2017)  
<https://llyw.cymru/trafod-y-cymoedd-rhaglen-ymgysylltu-adroddiad-terfynol?>

Gwerthusiad o'r Rhaglen Mynediad (2017-2019)  
<https://llyw.cymru/gwerthusor-rhaglen-fynediad-2017-i-2019>

Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynlluniau Cyflawni (2017, 2018, 2019-21)  
<https://llyw.cymru/ein-cymoedd-ein-dyfodol-cynllun-cyflawni?>

Tasglu'r Cymoedd: Cyfweiliadau gyda Rhanddeiliaid (2021)  
<https://llyw.cymru/tasglur-cymoedd-cyfweiliadau-rhanddeiliaid?>

Arolwg Rhanddeiliaid Tasglu'r Cymoedd (2021)  
<https://llyw.cymru/tasglur-cymoedd-arolwg-rhanddeiliaid?>